

Dim ail gyfle

Canllaw diogelwch cam wrth gam ar gyfer peiriannau fferm



Fersiwn o'r daflen
INDG241W ar gyfer y we
yw hwn

Dros gyfnod o bum mlynedd, ymchwiliodd Arolygwyr Amaethyddol HSE i bron 7000 o ddamweiniau. Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o dros 1000 o'r damweiniau hynny a oedd yn ymwneud â chynnal a chadw a chlirio rhwystrau.

Yn y llyfryn hwn cewch gyngor ymarferol ar weithio gyda pheiriannau amaethyddol symudol a sefydlog – yn arbennig cynnal a chadw peiriannau ac ymdrin â rhwystrau.

Cofiwch mai'r amser i feddwl am ddiogelwch yw cyn i rywbeth fynd o'i le, nid wedyn.

Canfyddiadau allweddol

Dangosodd dadansoddiad o'r damweiniau'n ymwneud â pheiriannau yr ymchwiliodd HSE iddynt y canfyddiadau allweddol canlynol:

- Roedd **arferion gwaith gwael** yn ffactor mewn 75% o ddamweiniau'n ymwneud â pheiriannau - gan ddangos bod angen mynd i'r afael â materion o ran **diffyg hyfforddiant** a **diffyg gwybodaeth**.
- **Cynnal a chadw'r** peiriannau a chlirio **rhwystrau** oedd dau weithgaredd a nodwyd fel gweithgareddau arbennig o beryglus.
- Roedd y peiriant **dan bŵer** mewn dros 60% o achosion, er mai dim ond mewn traean o'r rhain yr oedd hyn yn angenrheidiol.
- Roedd **gorchuddion diogelu gwael** ar 29% o'r peiriannau.
- Nid oedd 10% o'r peiriannau wedi cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.
- Roedd y rhan fwyaf o'r damweiniau'n gysylltiedig â gweithwyr 17-25 oed, a nifer fawr arall yn gysylltiedig â phobl 40-45 oed.
- Roedd 50% o ddiodefwyr pob damwain wedi cael eu dal ar rannau symudol.
- Y gweithredwr oedd y sawl a anafwyd amlaf.

Mae pergyll mewn pŵer

Un o'r nodweddion cyffredin am y damweiniau yr ymchwiliwyd iddynt oedd methiant y gweithredwyr i ddiffodd y tractor neu ddiffodd a chloi'r peiriant cyn mynd i'r afael â'r broblem. Mae'r ffactor hwn yn codi dro ar ôl tro mewn adroddiadau ar ddamweiniau.

Ychydig iawn o weithwyr sy'n sylweddoli faint o bŵer a gaiff ei ddefnyddio pan fydd peiriant amaethyddol yn weithredol. Gall y rhan fwyaf ddyfynnu beth yw grym pŵer eu tractor. Ychydig iawn sy'n sylweddoli beth yw gwir ystyr hyn - na'u gwendid eu hunain mewn cymhariaeth â hynny.

Cofiwch:

- Caiff polyn ffens 10 centimetr ei chwalu'n bren matsis bron ar unwaith pan gaiff ei ddal mewn bachyn casglu sydd wrthi'n codi.
- Gall chwistrelliad o olew hydrolig o bibell sydd wedi torri ffrwydro ar raddfa o 3,000 psi gan dreiddio i'r croen mor rhwydd â phe bai'n cael ei roi gyda chwistrell hypodermig. Gall arwyddion allanol yr anaf fod yn fach iawn, ond nid yw hynny'n wir am y niwed mewnol. Gall olew dreiddio i gyhyrau ac organau, sydd fel arfer yn golygu y bydd angen llawdriniaeth. Gall olew ladd meinwe'r corff gan achosi niwed difrifol a allai arwain at orfod torri braich neu goes i ffwrdd.
- Bydd siafft PTO yn clymu dillad, gwallt neu fraich ar gyflymder o tua 1.5 metr mewn un eiliad.

Efallai y byddai hyfforddiant, paratoi digonol a meddwl ymlaen llaw wedi helpu i osgoi llawer o'r damweiniau a ddadansoddwyd. Yn llawer rhy aml, nid yw gweithwyr yn gwerthfawrogi canlyniadau posibl eu gweithredoedd yn llawn.

Diffodd diogel

Mae'n debyg mai Diffodd Diogel yw'r cam diogelwch pwysicaf wrth weithredu tractorau, peiriannau hunanyredig neu unrhyw beiriannau eraill. Mae'n golygu:

- Sicrhau bod y brêc llaw ymlaen (ar gyfer offer symudol)
- Sicrhau y caiff yr holl reolaethau ac offer eu gadael yn ddiogel (ee safle niwtral).
- Diffodd y peiriant neu ddiffodd y p^wer.
- Tynnu'r allwedd allan neu gloi'r cyflenwad p^wer.

Cofiwch:

Efallai fod sawl ffynhonnell b^wer i rai peiriannau - mecanyddol, hydrolig a thrydanol (ee peiriant codi tatws sydd â rhannau a gaiff eu gyrru'n hydrolig, rhannau a gaiff eu gyrru gan PTO neu reolaethau trydanol ar gyfer rhai systemau). Rhaid mynd i'r afael â phob ffynhonnell b^wer yn ystod Diffodd Diogel. Fel arfer, mae'n ddigon i ddiffodd y tractor a thynnu'r allwedd allan - ond efallai nad yw hyn yn wir ar gyfer peiriannau sefydlog.

Dylid dilyn y camau hyn bob amser:

- Cyn gadael sedd y gyrrwr/safle gweithredu'r peiriant.
- Pan fydd rhywun arall yn dod atoch.
- Pan fydd rhywun yn gweithio ar beiriant.

Systemau gwaith diogel

Mae'r pwyntiau a gaiff eu hamlinellu isod yn sail i system waith ddiogel. Rhoddir sylw manylach iddynt ar y tudalennau canlynol.

Y pwyntiau y dylech eu hystyried yw:

- A ydych wedi cael yr hyfforddiant priodol i wneud y gwaith hwn?
- A ydych wedi darllen y llawlyfr cyfarwyddiadau ar gyfer y peiriant?
- A yw'r offer a'r dillad iawn ac ati gennych?
- A ydych wedi cynllunio eich gwaith – wedi ystyried yr holl agweddau, gan gynnwys mynediad at y peiriant?

- Os oes dau neu fwy o bobl yn gweithio ar y peiriant, a yw pawb yn deall yr hyn sydd angen ei wneud ac a ydych wedi cytuno ar system gyfathrebu?
- Diffoddwch y peiriant bob amser cyn cyffwrdd ag ef.
- Sicrhewch bob amser bod y peiriant wedi stopio'n llwyr – cofiwch roi amser iddo arafu.
- Cymerwch bob cam posibl - tynnwch yr allwedd allan o offer symudol a chloi switsis ar offer sefydlog.
- Clymwch unrhyw beth a allai ddisgyn arnoch yn sownd – ee drwy ddefnyddio propiau.
- Clymwch unrhyw beth a allai symud neu droi yn sownd – ee drwy ddefnyddio plociau.
- Cofiwch y caiff ynni ei storio mewn sbring neu hydroleg, er enghraifft.
- Sut mae mynd ati i rwystro'r ynni hwn rhag cael ei ryddhau neu ei ryddhau'n ddiogel?
- Defnyddiwch y teclynnau cywir ar gyfer y gwaith.
- Dilynwch gyfarwyddiadau/gweithdrefnau'r gweithgynhyrhydd.
- Ar ôl gorffen y gwaith, rhoddwch y gorchuddion diogelu yn ôl bob amser cyn tanio'r peiriant.
- Archwiliwch y peiriant cyn ei aildanio.

Yn bennaf, os nad ydych wedi cael eich hyfforddi i wneud y gwaith, peidiwch â'i ddechrau!

A wyf yn barod?

Cyn gweithio gyda pheiriannau amaethyddol, dylech ofyn y cwestiynau hyn i chi eich hun:

- **A wyf wedi fy hyfforddi i wneud y gwaith hwn?**
 - Os nad ydych, peidiwch â pharhau!
- **A wyf yn gwybod sut i weithredu'r peiriant hwn?**
 - Peidiwch byth â defnyddio unrhyw beiriant os nad ydych wedi cael hyfforddiant priodol ac yn gwybod sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.
 - Gwnewch yn si^wr eich bod yn darllen ac yn deall llawlyfr y gweithredwr a'i fod ar gael yn gyfleus er mwyn cyfeirio ato'n gyflym.
- **A wyf yn gwisgo dillad ac esgidiau addas?**
 - Gwisgwch esgidiau gyda gafeal da (dylid gwisgo esgidiau diogelwch fel arfer wrth ddefnyddio peiriannau).
 - Gwisgwch ddillad na fyddant yn dal ar beiriannau neu reolaethau (oferôls fyddai'r gorau – a rhai heb eu rhwygo!)
 - Gwisgwch offer diogelu personol priodol.
 - Tynnwch unrhyw emwaith a allai ddal yn y peiriant (cofiwch bob oriawr a modrwy).
 - Cadwch wallt hir wedi ei glymu yn ôl.
- **A wyf yn gwybod beth allai ddigwydd o ganlyniad i'm gweithredoedd?**
 - Dylech wybod sut mae'r peiriant yn gweithio – ym mha drefn y mae popeth yn digwydd.
 - Cynlluniwch eich gwaith ymlaen llaw a chofiwch fod rhannau o'r peiriant yn symud ac y gallent symud.
- **A oes unrhyw un arall yn gweithio ar y peiriant neu gerllaw?**
 - Os oes, cytunwch ar gamau gweithredu cyn dechrau unrhyw waith.
 - Tynnwch yr allwedd allan o'r peiriant - efallai na fydd cynorthwywyr dibrofiad yn deall y rheolaethau a gallent bwyso'r rhai anghywir.
 - Ystyriwch bobl eraill a allai fod gerllaw a'u rhybuddio cyn cychwyn y peiriant eto.

A yw'r peiriant yn barod?

Cyn defnyddio unrhyw beiriant, dylech gynnal archwiliad sylfaenol ohono i sicrhau bod popeth mewn trefn. Y cwestiynau allweddol y dylech eu hystyried yw:

A yw'n ddiogel?

- Cadarnhewch nad oes unrhyw ddiffygion mecanyddol (gan roi sylw arbennig i'r brecio).
- Peidiwch byth â defnyddio peiriannau nad ydynt wedi eu cynnal a'u cadw'n briodol.
- Dim ond o'r man gweithredu arferol y dylech weithredu unrhyw beiriant.

Beth am y gorchuddion diogelu?

- Sicrhewch fod y gorchuddion yn eu lle.
- Sicrhewch nad yw'r gorchuddion wedi eu difrodi.

Cofiwch:

- Rhaid nodi ac atgyweirio unrhyw orchuddion diogelu sydd wedi eu difrodi.
- Dylid gosod gorchuddion diogelu newydd yn lle rhai sydd wedi mynd ar goll.

Astudiaeth achos

Roedd gweithredwr yn gweithio ar beiriant codi tatws pan ddaliodd ei llaw dde a'i braich rhwng gwe'r codwr a'r rholiwr tywarchen. Roedd y gorchudd diogelu a roddwyd gan y gweithgynhyrhydd dros y rhannau hyn wedi dirywio cymaint fel nad oedd yn rhoi unrhyw ddiogelwch.

Mae'r gorchuddion yno i'ch diogelu. Cofiwch eu harchwilio cyn dechrau gweithio. Peidiwch â defnyddio'r offer os yw'r gorchuddion ar goll neu wedi dirywio.

Cynnal a chadw -

Cyn dechrau

Unwaith eto, y cwestiwn allweddol yw: 'A wyf wedi fy hyfforddi i wneud y gwaith hwn?' Os nad ydych – peidiwch â'i ddechrau!

Cyn gwneud unrhyw waith cynnal a chadw:

■ **Dilynwch egwyddorion Diffodd Diogel**

- Gallai achub eich bywyd – neu fywyd rhywun arall.

■ **Sicrhewch fod y peiriant wedi stopio**

- Hyd yn oed os yw'r p^wer wedi ei ddiffodd, gallai rhannau o'r peiriant barhau i droi. Ar rai peiriannau, nid yw'n anarferol i rai peiriannau ddal i droi am bum munud.

■ **Clymwch unrhyw beth a allai symud yn sownd**

- defnyddiwch bropiâu, plociau priodol ac ati (ee prop i ddal trelar sydd wedi ei godi).

■ **Gwiriwch eto:**

- A wyf yn gwisgo'r dillad cywir?
- A wyf wedi tynnu unrhyw emwaith?

■ **Gwiriwch eto:**

- A wyf wedi cael yr hyfforddiant priodol i wneud y gwaith hwn?
- A wyf wedi cynllunio'r gwaith?
- A yw'r teclynnau a'r offer cywir gennyf?
- A wyf yn gwybod beth allai ddigwydd?

■ **Os oes unrhyw un arall yn gweithio ar y peiriant:**

- A ydynt wedi cael yr hyfforddiant priodol i wneud y gwaith?
- Cyfathrebwch yn glir.
- Cytunwch ar y camau gweithredu a'u dilyn.
- Tynnwch yr allwedd allan neu clowch y cyflenwad p[^]wer - efallai na fydd cynorthwywyr dibrofiad yn deall y rheolaethau a gallent bwysu'r rhai anghywir.

Astudiaeth achos

Roedd gweithredwr yn cynnal gwaith atgyweirio o dan balwr tro a oedd wedi ei osod ar dractor. Cafodd ei wasgu pan dorodd y darn o bren yr oedd yn ei ddefnyddio a disgynnodd y palwr arno.

Gallai'r defnydd o standiau echel fod wedi atal y ddamwain hon. Clymwch unrhyw beth a allai ddisgyn arnoch neu ddechrau symud yn sownd, a defnyddiwch yr offer cywir bob amser ar gyfer y gwaith.

Cynnal a chadw -

Wrth eich gwaith

Wrth ddefnyddio peiriannau, dilynwch y gweithdrefnau gweithio'n ddiogel. Talwch sylw arbennig i orchuddion diogelu.

Wrth weithio:

- Peidiwch â symud gorchuddion diogelu oni bai bod y peiriant wedi ei gloi neu fod yr allwedd wedi cael ei thynnu allan.
- Peidiwch â rhwystro gorchuddion diogelu (ee drwy wrthwneud dyfeisiadau diogelwch).
- Peidiwch â thanio'r peiriant pan fydd y gorchuddion diogelu wedi cael eu tynnu i ffwrdd.
- Rhowch yr holl orchuddion diogelu yn ôl cyn profi'r peiriant.
- Archwiliwch y peiriant cyn ei ailgychwyn.
- Edrychwch i weld a oes pobl eraill yn sefyll gerllaw a chofiwch eu rhybuddio pan fyddwch yn ailddanio'r peiriant.
- Os oes angen archwilio'r peiriant ar ôl y prawf, ailadroddwch yr holl weithdrefnau diogelwch – yn arbennig Diffodd Diogel.

Astudiaeth achos

Roedd gweithredwr peiriant plannu tatws wedi atgyweirio'r gyriant cadwyn a oedd wedi torri wrth i'r peiriant gael ei ddefnyddio. Ni roddodd y gorchudd diogelu yn ôl cyn tanio'r peiriant i brofi'r gwaith atgyweirio. Pan oedd yn fodlon bod popeth yn gweithio rhoddodd y gorchudd yn ôl, ond cafodd ei fawd ei ddal rhwng y gadwyn a oedd yn symud a'r sbroced a chafodd blaen ei fawd ei dorri i ffwrdd.

Ni ddylai fod wedi ceisio rhoi'r gorchudd yn ôl tra oedd y peiriant ymlaen. Dylai'r gorchudd fod wedi cael ei osod, pan oedd y peiriant yn segur, cyn y prawf.

Cynnal a chadw -

Gweithgareddau peryglus

Wrth gynnal a chadw peiriannau amaethyddol, mae llawer o weithgareddau a allai fod yn beryglus. Mae rhai yn fwy cyffredin nag eraill mewn adroddiadau ar ddamweiniau.

SYLWER: Mae'r rhestr ganlynol yn seiliedig ar ddamweiniau yr ymchwiliwyd iddynt gan HSE. Nid yw'n cwmpasu pob sefyllfa beryglus a allai ddigwydd yn ystod gwaith cynnal a chadw. Dylech fod yn ymwybodol bod llawer o beryglon posibl eraill.

Iro

- Os oes angen i chi dynnu'r gorchudd diogelu i ffwrdd i iro'r peiriant, peidiwch byth ag iro'r peiriant pan fydd yn symud.

Archwilio systemau hydrolig

- Cofiwch fod olew hydrolig o dan bwysedd mawr. Gallai arwyddion allanol chwistrelliad olew fod yn fach, ond nid yw hynny'n wir am y niwed mewnol a gallai arwain at lawdriniaeth neu orfod torri braich neu goes i ffwrdd.
- Os ydych yn chwilio am hylif sy'n gollwng, defnyddiwch rywbeth (ee rhedeg darn o gerdyn ar hyd y bibell) i ddangos lle mae'n gollwng. Peidiwch â defnyddio eich dwylo.
- Rhyddhewch y pwysedd cyn gweithio ar y system.

Hogi

- Wrth weithio ar gynaeafwr porthiant, er enghraifft, dim ond y gwaith hogi ei hun ddylai ddigwydd pan fydd y peiriant yn symud. Dylai pob gweithgarwch cyn hogi ac wedyn (ee tynnu'r gorchudd) gael ei wneud pan fydd y peiriant yn sefydlog – hyd yn oed os bydd yn cymryd amser hir i'r peiriant arafu.
- Gwylwch rhag gronynnau'n hedfan wrth hogi peiriannau. Defnyddiwch offer diogelu megis sbectol ddiogelu.

Gweithio o dan beiriannau

- Wrth weithio o dan beiriannau sydd wedi eu codi, dylid defnyddio jac wedi ei leoli'n gywir ynghyd â chynhalwyr ychwanegol (ee standiau echel).
- Wrth weithio ar offer sydd wedi eu codi'n hydrolig (ee trelars) dylid defnyddio propiau. Peidiwch byth â dibynnu ar yr hydroleg yn unig.

Morthwyllo

- Byddwch yn ymwybodol o ronynnau'n hedfan. Defnyddiwch yr offer diogelu personol priodol bob amser. Yn ogystal â diogelu rhag gronynnau'n hedfan, mae hefyd yn diogelu rhag llawer o risgiau eraill.

Glanhau

- Byddwch yn ymwybodol o'r perygl o ddisgyn oddi ar beiriannau neu i mewn iddynt, yn arbennig pan fo'n wlyb neu'n fwdlyd. Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i gael mynediad i'r peiriannau'n ddiogel – yn arbennig peiriannau mawr megis cynaeafwyr.
- Peidiwch â glanhau peiriannau pan fyddant yn rhedeg a'r gorchuddion diogelu wedi eu tynnu i ffwrdd.

Rhwystrau

Mae llawer o ddamweiniau'n digwydd wrth glirio rhwystrau mewn peiriannau – yn aml am fod gweithredwyr yn ceisio clirio rhwystr heb ddiffodd y peiriant.

Unwaith eto, y cwestiwn allweddol i'w ofyn yw: 'A wyf wedi fy hyfforddi i wneud y gwaith hwn yn iawn?' Os nad ydych, peidiwch â rhoi cynnig arni.

■ **Dilynwch Egwyddorion Diffodd Diogel**

- Diffodd Diogel, o bosibl, yw'r weithdrefn bwysicaf ar gyfer atal damweiniau (gweler tudalen 5). Gallai peiriant a oedd wedi ei rwystro ddechrau gweithio eto'n ddirybudd os na fydd y peiriant wedi ei ddiffodd cyn i'r rhwystr gael ei glirio.
- Rhaid i'r pŵer gael ei gloi neu rhaid i'r allwedd gael ei thynnu allan er mwyn rhwystro pobl eraill rhag aildanio'r peiriant tra rydych yn gweithio arno.

■ **Sicnewch ei fod wedi stopio**

- Hyd yn oed os yw'r pŵer wedi ei ddiffodd, gall rhannau peiriannau barhau i droi. Ar rai peiriannau, gall gymryd pum munud i arafu'n gyfan gwbl. Caiff llawer o anafiadau eu hachosi pan gaiff gwaith ei ddechrau cyn i'r peiriant stopio'n llwyr.

■ **Cymerwch bob cam posibl: rhowch blocyn i'w ddal**

- Pan fo'n bosibl cymerwch gamau diogelwch ychwanegol i sicrhau bod rhannau symudol yn aros yn sefydlog - ee rhoi plocyn i ddal silindr torri cynaeafwr porthiant er mwyn ei rwystro rhag symud.

■ **Defnyddiwch offeryn i glirio'r rhwystr**

- Peidiwch byth â defnyddio eich dwylo'n unig i glirio rhwystr a pheidsiwch â cheisio'i gicio'n rhydd. Hyd yn oed mewn achosion pan fo gweithredwyr yn defnyddio offeryn i glirio'r rhwystr, caiff nifer sylweddol ohonynt eu hanafu am fod y peiriant yn dal i droi.

■ **Os nad yw'n clirio, peidiwch â'i gyffwrdd**

- Cofiwch y gall peiriannau symud yn sydyn pan gaiff rhwystr ei glirio.

Astudiaeth achos

Cafodd ffermwr ei ddal yn nannedd og bŵer a oedd yn troi a heb eu gwarchod pan geisiodd symud carreg tra oedd y peiriant heb ei ddiffodd. Trodd y dannedd pan symudwyd y carreg, gan glymu coesau'r dyn. Cafodd un goes ei thorri i fwrdd.

Byddai Egwyddorion Diffodd Diogel wedi atal y math hwn o ddamwain.

Ardaloedd o berygl arbennig

Dengys dadansoddiad o ddamweiniau yr ymchwiliwyd iddynt gan HSE fod rhai manau a rhai darnau o beiriannau sy'n arbennig o beryglus. Dyma rai ohonynt - ond nid pob un. Cofiwch y gall unrhyw beiriant amaethyddol dan bŵer fod yn beryglus.

- Byrnwr – darnau casglu a llinynnau.
- Cynaeafwr porthiant - silindr malu.
- Dyrnwr medi – storfa rawn.
- Peiriant codi tatws – darnau sy'n troi.
- Tancer slyri – siafft PTO.
- Malwyr byrnau a gwellt – peirianwaith malu.
- Tractor – peirianwaith cario, siafft PTO.
- Offer sydd wedi ei godi – oddi tano.

Byddwch yn ofalus hefyd gyda'r canlynol:

- Addasiadau a wnaed gartref i beiriannau a pheiriannau a wnaed gartref.
- Rhannau is na'r safon (a allai fethu a chreu gronynnau sy'n hedfan).
- Unrhyw beirianwaith y gellir ei droi â llaw ond a allai gyflymu.
- Unrhyw beirianwaith sy'n cyflymu ac sy'n cymryd amser i stopio'n llwyr.
- Hylif hydrologig (pan fo perygl o chwistrelliad olew).

Cost damweiniau

Mae llawer o ddamweiniau'n arwain at gostau corfforol - poen a dioddefaint.

Ond mae damweiniau hefyd yn costio arian – i'r sawl a anafwyd a'r cyflogwr.

Gallai amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd damwain arwain at golli enillion i'r unigolyn. I'r hunangyflogedig, gallai hyd yn oed arwain at derfyn eu busnes.

I'r cyflogwr, efallai fod costau cudd. Mae llawer o bobl yn credu nad yw mân anafiadau'n costio dim mwy na phris plaster bach. Ond bydd angen i bobl dreulio amser yn ymdrin â'r ddamwain. Efallai y bydd angen iddynt:

- Helpu'r person a anafwyd a rhoi cymorth cyntaf.
- Glanhau.
- Aildrefnu'r gwaith.
- Atgyweirio neu ailosod yr offer neu edrych beth aeth o'i le ar y peiriant.
- Cynnal ymchwiliad i'r ddamwain a pharatoi adroddiadau.
- Ymdrin ag yswirwyr neu Arolygwyr Iechyd a Diogelwch.
- Aros i gael mynd yn ôl i'r gwaith.

Gall damweiniau sy'n achosi difrod i beiriannau ac offer costus gostio llawer mwy na hynny hyd yn oed.

Fideo dim ail gyfle

Mae fideo 13 munud ar gael hefyd i ategu'r daflen hon sy'n edrych ar y canlyniadau angheuol posibl yn sgîl anwybyddu arferion gweithio diogel. Mae'n ail-greu sefyllfaoedd mewn ffordd ddramatig ac yn cynnwys cyfweiliadau â dioddefwyr damweiniau i dynnu sylw at gyngor diogelwch pwysig i unrhyw un sy'n gweithio gyda pheiriannau – yn arbennig o ran eu cynnal a chadw a symud rhwystrau (Dim ond yn Saesneg y mae'r fideo ar gael).

ISBN 0 7176 1951 6 Pris £25.00 + TAW


Mae'r fideo ar gael o HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk
C010 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995
Gwefan: www.hsebooks.co.uk

Gwybodaeth bellach

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ac am ddim ar gael drwy'r post o HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk C010 2WA
Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk
(Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan HSE: www.hse.gov.uk)

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch, ffoniwch Linell wybodaeth HSE
Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566 Ffôn testun: 0845 408 9577
e-bost: hse.infoline@natbrit.com neu ysgrifennwch at: Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arferion da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod o gymorth i chi wrth ystyried beth y mae angen i chi ei wneud.

©  *Hawlfraint y goron*. Mae rhyddid i atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, ardystio neu fasnachu. Cyhoeddwyd gyntaf 11/96.
Cydnabydder y ffynhonnell fel HSE.